



### YN Y BWLETIN TYMOR YMA

- ✓ DYDDIADAU PWYSIG
- ✓ PRESENOLDEB
- ✓ ARHOLIADAU
- ✓ GWISG YSGOL
- ✓ TYWYDD POETH
- ✓ DATHLIADAU 400
- ... A MWY

### GAIR GAN Y PRIFATHRO



Mr Dylan Minnice

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Prifathro Ysgol Botwnnog.

Mae tymor prysur o arholiadau ac asesiadau o'n blaenau - ceir manylion pellach yn y bwletin.

Os hoffech drafod unrhyw fater yna peidiwch ag oedi i godi'r ffôn (01758) 730220 neu yrru ebost:

pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk

## RHAI DYDDIADAU PWYSIG

Dyma rai dyddiadau pwysig ar gyfer eich dyddiaduron:

22 Ebrill .....	Diwrnod Hyfforddiant Staff - <b>Dim ysgol i ddisgyblion</b>
25 - 29 Ebrill .....	Arholiadau Blwyddyn 10
2 Mai .....	Diwrnod Calan Mai - <b>Dim Ysgol</b>
3 - 12 Mai .....	Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (Bl. 7,8 a 9)
13 Mai - 21 Mehefin.....	Arholiadau TGAU (Bl 10 ac 11)
30 Mai - 3 Mehefin .....	Gwyliau Hanner Tymor
7 Mehefin .....	Mabolgampau'r Ysgol (i'w gadarnhau)
20 - 24 Mehefin.....	Arholiadau Haf Blwyddyn 7, 8, 9, 10
27 Mehefin - 1 Gorffennaf .....	Asesiadau Llafar Saesneg - Bl 7-9
4- 8 Gorffennaf .....	Wythnos Gweithgareddau Asesu BAC Blwyddyn 10 ( <b>Gweler isod</b> )
15 Gorffennaf .....	Diwrnod olaf y tymor i ddisgyblion
25 Awst.....	Canlyniadau TGAU
1 -2 Medi .....	Tymor yr Hydref - Athrawon yn unig
5 Medi .....	Disgyblion yn dychwelyd i'r Ysgol

Gwybodaeth bellach am yr arholiadau ar dudalen 2 a 3 y bwletin yma.

Mae amserlen gwyliau ysgol y Cyngor ar gael drwy fynd i'r wefan:

<https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Dyddiadau-tymor--gwyliau.aspx>

## WYTHNOS ASESU BAC BLWYDDYN 10

Mae'r cwrs Bagloriaeth Cymru newydd ym mlwyddyn 10 ac 11 yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd. Mae'r cwrs yn cael ei asesu yn gyfan gwbl yn yr ysgol, heb arholiad, ac 'rydym wedi clustnodi wythnos ar galendr yr ysgol ar gyfer gwneud yr asesiad terfynol ar gyfer dwy uned. Mae'n hanfodol bwysig felly fod pob un disgybl o flwyddyn 10 yn bresennol yn ystod yr wythnos Gorffennaf 4<sup>ydd</sup> i'r 8<sup>fed</sup>. Os nad ydynt yn bresennol yr wythnos hon yna efallai na fyddant yn llwyddo i basio'r gymhwyster

## ADRODDIADAU INTERIM – BLYNYDDOEDD 7 – 10

Dylech fod wedi derbyn copi o Adroddiad Interim eich mab / merch cyn y Pasg. Prif nod yr Adroddiad yw monitro ymdrech a chynnydd y disgyblion. Braff sylwi fod mwyafrif llethol y disgyblion yn gweithio'n gyson galed ac yn gydwybodol hyd eithaf eu gallu ym mhob pwnc. Mae ambell i ddisgybl mewn ambell i bwnc wedi cael gradd C sef boddhaol neu radd D sef Anfoddhaol am Ymdrech. Bydd staff yn monitro diffyg ymdrech o'r fath. Byddwch chwithau fel rhieni yn awyddus rwy'n siŵr i'n cefnogi i wella agwedd ac ymdrech anfoddhaol o hyn hyd yr haf. Cysylltwch â'r ysgol os hoffech drafod adroddiad eich mab / merch.

### PRESENOLDEB

Mae presenoldeb da yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn yr Ysgol. Mae colli ysgol yn effeithio ar addysg eich plentyn. Mae presenoldeb disgyblion yr ysgol parhau i fod yn dda (95% ar gyfartaledd hyd yn hyn eleni). **Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth unwaith eto eleni.**

Credwn fod presenoldeb rhagorol yn allweddol i lwyddiant academiaidd a chymdeithasol pob disgybl. Gwobrwyir disgyblion am bresenoldeb rhagorol.

Mae presenoldeb o 95% yn swnio'n dda, ond dros 5 mlynedd o ysgol byddai hyn yn golygu fod disgybl yn colli bron i 250 o wersi!

Presenoldeb	100%	99%	98%	97%	96%	95%	94%	93%	92%	91%	90%	89%	88%	87%	86%	85%
Nifer o wersi wedi eu methu dros 5 mlynedd	0	48	95	143	190	238	285	332	380	428	475	523	570	618	665	713

Cydymdeimlir â disgyblion sydd yn sâl ond mae ambell ddisgybl yn colli ysgol oherwydd anhwylderau bychan iawn neu â mymryn o boen bol neu gur pen.

Mae angen presenoldeb uchel er mwyn manteisio'n llawn ar yr addysg a gynigir yn yr ysgol.

**“Mae pob disgybl yn cyfri — Mae pob diwrnod yn cyfri”**

## ARHOLIADAU

### BLWYDDYN 11

Mae'n gyfnod arbennig o brysur i bob disgybl ym Mlwyddyn 11. Mae'n bwysig fod y **disgyblion** yn yr ysgol **bob dydd**. Mae angen gorffen y maes llafur ymhob pwnc, cwblhau gwaith cwrs, ymarfer hen gwestiynau ac adolygu yn drwyadl.

Byddwn yn aildrefnu'r amserlen ar adegau er mwyn trefnu cyfnodau adolygu dwys cyn rhai arholiadau.

Mae disgwyl i ddisgyblion Blwyddyn 11 ddod i'r ysgol bob dydd. Bydd athrawon yn adolygu gyda'r disgyblion. Mae'n bwysig fod disgyblion yn dod â gwaith adolygu gyda hwy i'r ysgol i gael y budd gorau o'r cyfnodau adolygu dwys.

Mae pwysau gwaith ar ein myfyrwyr hŷn ond mae'r staff yn yr ysgol yn barod iawn i'w helpu a'u harwain i gyrraedd eu llawn potensial yn yr arholiadau.

Os yw eich mab / merch yn cael trafferth gyda'u gwaith neu'n bryderus am agwedd o'u gwaith ysgol cysylltwch â'r ysgol i nodi hynny os gwelwch yn dda ( i sylw'r Pennaeth neu'r Dirprwy - Mr. Geraint Hughes).

**Dymuniadau gorau i bob disgybl ym Mlwyddyn 11 ar gychwyn cyfnod allweddol yn eu hanes.**

Rhaid paratoi yn drwyadl a gweithio'n gyson galed i lwyddo yn yr Haf. Heb roi amser digonol i baratoi ni ddaw llwyddiant - **“Fail to prepare, prepare to fail”**. Dyna'r gri arferol o Fotwnnog yr adeg hon o'r flwyddyn - ac mae mor wir.

Edrychwn ymlaen i weld gwynebau hapus ar ddiwrnod canlyniadau - **DYDD IAU, AWST 25**

## PROM BLWYDDYN 11

Bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 11 ymlacio ar ôl yr arholiadau yn y Prom mae'r Ysgol yn ei drefnu ar eu cyfer yn Nant Gwrtheyrn. Mae hwn yn brynhawn hwyliog lle mae cyfle i flwyddyn 11 fwynhau pryd o fwyd, disgo a chymdeithasu mewn lleoliad hyfryd.

Mae'n gyfle i'r Ysgol wobrwyo ymddygiad, presenoldeb ac ymdrech blwyddyn 11—ond cedwir yr hawl i wrthod disgyblion nad ydynt yn ymdrechu, sy'n ymddwyn yn amhriodol neu sy'n gyson absennol yn y cyfnod nesaf rhag cael mynd.

## ARHOLIADAU ALLANOL - BLWYDDYN 10

Cynhelir tri arholiad allanol Gwyddoniaeth TGAU yn ystod mis Mehefin - **Dyma'r unig gyfle fydd gan y disgyblion i sefyll yr arholiadau hyn.** Byddant yn ennill cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth ar ddiwedd Blwyddyn 10 cyn mynd ymlaen i astudio TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol ym mlwyddyn 11. Mae yna hefyd arholiadau allanol, sydd yn cyfrif tuag at y radd derfynol, mewn unedau rhai pynciau eraill - rydych eisoes wedi cael amserlen personol ar gyfer eich mab/merch. **Mae'n hanfodol fod y disgyblion yn bresennol ar gyfer eu harholiadau ar y dyddiadau canlynol:-**

Dydd Gwener, 13 Mai .....	Cymraeg 2il Iaith - Uned 1
Dydd Llun, 16 Mai .....	Ast. Crefyddol
Dydd Mercher, 18 Mai .....	TGCH - Uned 1
Dydd Mercher, 25 Mai .....	Busnes Gymhwysol—Uned 2
Dydd Mercher, 15 Mehefin.....	Bywydeg
Dydd Gwener, 17 Mehefin.....	Cemeg
Dydd Llun, 20 Mehefin.....	Ffiseg
Dydd Mawrth, 21 Mehefin.....	Hanes—Uned 3 (UDA)

## AMSERLENNI ARHOLIADAU ALLANOL - BLYNYDDOEDD 10 AC 11

Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 10 ac 11 wedi derbyn amserlen personol yn nodi eu harholiadau.

Mae amserlenni llawn ar gael ar wefan yr Ysgol— <http://ysgolbotwnnog.org/disgyblion.html>

## PROFION DARLLEN A RHIFEDD CENEDLAETHOL - BLYNYDDOEDD 7, 8 A 9

Dyma'r bedwaredd flwyddyn o brofion darllen a rhifedd ar gyfer disgyblion hyd at Flwyddyn 9.

Bydd y rhain yn cael eu cynnal mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn y cyfnod **3 Mai—12 Mai.**

Mae gwybodaeth pellach am y profion hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru

<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/140420-information-for-parents-carers-2-9-cy.pdf>

## ARHOLIADAU MEWNOL - BLYNYDDOEDD 7 - 10

**BLWYDDYN 10** - Cynhelir yr arholiadau mewnol ar ddiwedd mis Ebrill: **25 - 29 Ebrill.** Mae'r amserlenni wedi eu dosbarthu i chi yn y noson rhieni neu i'ch mab/merch os oeddech yn methu bod yn bresennol. **DYLAI DISGYBLION BLWYDDYN 10 FOD YN ADOLYGU BOB NOS AR GYFER RHAIN.** Yr wythnos asesu ar gyfer y BAC, sydd yn cyfrif tuag at y radd derfynol, ydi **4 - 8 Gorffennaf.**

**Bl 7 - 9** - Cynhelir arholiadau mewnol yr ysgol ar gyfer blynyddoedd 7 - 9 ddiwedd y tymor yma: **20—24 Mehefin.** (Bydd asesiadau llafar Saesneg yr wythnos ganlynol (**27 Mehefin - 1 Gorffennaf**))

Mae sicrhau canlyniadau da yn yr arholiadau hyn yn bwysig. Bydd adrannau yn defnyddio'r canlyniadau hyn ynghyd â marciau'r flwyddyn i benderfynu ym mha setiau y mae disgyblion ar gyfer y tymor nesaf.

**Dylai fod eich mab/merch yn dechrau adolygu ar gyfer yr arholiadau hyn yn ystod yr hanner tymor yma.**

## HELPU EICH MAB/MERCH I ADOLYGU

Gallwch gynorthwyo eich mab/merch i adolygu drwy:

- gynllunio amser penodol bob nos ar gyfer adolygu—mae sesiynau o tuag awr ar y tro gydag egwyl fach

rhyngddynt yn aml yn gweithio'n dda.

- eu helpu i gynllunio amserlen adolygu ar gyfer pob pwnc;
- sicrhau lleoliad tawel iddynt gael gweithio;
- eu profi ar y gwaith.

Gellir cael gwyboadeth bellach am sut i gynorthwyo eich plant i adolygu ar wefannau fel BBC Bitesize.

---

## GWISG YSGOL

---

Wrth brynu dillad ysgol ar gyfer y tymor newydd ym mis Medi cofiwch y rheolau am wisg ysgol os gwelwch yn dda:

### BECHGYN A GENETHOD

Crys chwys gwddw crwn **DU gyda bathodyn yr ysgol** (*ar werth yn yr ysgol*).

Crys polo **GWYN NEU DDU** plaen NEU gyda logo'r ysgol wedi ei wnïo arno (*ar werth yn yr ysgol*).

**BECHGYN:** Trowsus **DU** (nid yw denim du, cords, gwaelod 'track suit' na throwsus combat du yn dderbyniol).

**Esgidiau / trainers unlliw DU.**

**GENETHOD:** Sgert ysgol blaen ddu rhesymol o hyd **gyda theits duon NEU drowsus DU plaen** (dim jeans, cords, 'leggings', gwaelod 'track suit', trowsus combat, etc.) Belt du yn unig.

**Esgidiau / trainers FFLAT DUON.** Sanau gwyn/du, teits du.

### DILLAD YMARFER CORFF:

- Crys polo melyn gyda logo'r ysgol wedi ei wnïo arno, siorts du, sanau pen-glin duon.
- Trainers (dim 'Vans') / Esgidiau pêl droed.
- Gellir gwisgo wisg trac lliw tywyll yn ystod y Gaeaf.
- **Offer diogelwch personol:**
  - **Gorfodol** - 'Shin Pads' – gorfodol ar gyfer hoci a phêl droed.
  - **Dymunol** - Cap sgrym ar gyfer rygbi, Tarian ceg ar gyfer hoci a rygbi.
  - Ni chaniateir gwisgo unrhyw emwaith yn ystod gweithgareddau ymarfer corff.

**Gemwaith** Caniateir 'studs' bach clust ac **UN** fodrwy (ar fys) yn unig. Dim mwclis na breichledau.

---

## TYWYDD POETH - DIOGELU RHAG LLOSG HAUL

---

Yn y blynyddoedd diwethaf mae achosion o gancr y croen wedi cynyddu. **Dylai disgyblion ofalu eu bod yn rhoi eli haul factor 15+** pan fo tywydd yn boeth yn enwedig rhwng 11 y bore a 3 y prynhawn, fel nad ydynt yn llosgi.

Mae'n bwysig felly, fod disgyblion yn rhoi eli haul pan fyddant yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau awyr agored—gwersi addysg gorfforol, diwrnod Mabolgampau ac yn y blaen. Os ydynt yn anghofio eli haul eu hunain dylent ofyn i'w hathrawon.

---

## DATHLIADAU 400 - LLYFR "HEN YSGOL HOGIA LLÛN

---

Mae Pwyllgor dathlu 400 mlwyddiant Ysgol Botwnnog wedi bod yn brysur yn hel hanes ac atgofion am yr ysgol ar gyfer llyfr "Hen Ysgol Hogia LlÛn. Bydd y llyfr gwerthfawr ac unigryw yma yn cael ei gyhoeddi yn ystod Haf 2016 ac mae cyfle i chi ei archebu am bris gostyngedig 'rwan. Mae ffurflen ar gyfer archebu'r llyfr ar y dudalen nesaf. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu i'r llyfr ac sydd wedi gweithio'n ddiflinio i'w baratoi.

Bydd manylion pellach am weithgareddau dathlu'r 400 yn cael eu rhannu gyda chi maes o law.



## Hen Ysgol Hogia Llŷn

Llyfr gwerthfawr ac unigryw yn dathlu pedwar canmlwyddiant sefydlu Ysgol Botwnnog.

*This is a rare opportunity to pre order the book, in Welsh, about the history of the school on the celebration of 400 years since its foundation.*

**Pris gostynedig o £10 i danysgrifwyr**

*Subscription at a reduced price of £10.00*

Manylion cyswllt Ysgol Botwnnog isod.

*Contact details below*

**Archebwch heddiw i sicrhau eich copi / copïau**

***Order today to reserve a copy.***

**(Tâl gyda'r archeb os gwelwch yn dda)**

***(Payment with each order, please)***

---

**Enw a Chyfeiriad/Name and address:** .....

.....

 ..... e-bost / e mail .....

Hoffwn archebu ..... copi o'r llyfr **Hen Ysgol Hogia Llŷn**.

*I would like to order ..... copies of the book **Hen Ysgol Hogia Llŷn***

Amgaeaf sic / arian am £ ..... (Sicciau yn daladwy i "Pwyllgor 400 Ysgol Botwnnog" os gwelwch yn dda.)

I enclose a cheque/ cash to the sum of £ ..... (*Cheques payable to "Pwyllgor 400 Ysgol Botwnnog", thank you.*)

Anfonwch i sylw / *please forward to the attention of:*

**Manon Williams, Ysgol Botwnnog, Llŷn, Pwllheli, LL53 8PY**